

Rhaglen Cynhwysiant Addysgol Cyngor Sir Penfro

Cynnwys Pob Dysgwr

Mae Cyngor Sir Penfro yn ymroi i hyrwyddo cyflawniad a lles ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn iddynt allu manteisio ar yr un cyfleoedd a gwasanaethau â phawb arall.

Mae'r polisi ar gyfer Cymhwysiant Addysgol yn nodi nifer o egwyddorion sy'n llywio cyflwyno cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant addysgol.

Yn benodol, mae'r polisi'n nodi y gall ac y dylai mwyafrif helaeth o ddysgwyr oedran ysgol gael eu haddysgu gyda phlant eraill o'r un oed yn eu hysgol gymunedol leol, sydd â'r cyfarpar cywir ac sy'n addas at y diben.

I wneud hyn, lluniwyd strategaeth cynhwysiant sy'n nodi'n glir yr agenda ar gyfer newidiadau ac mae wedi'i seilio ar bump llinyn allweddol:

LLINYNNAU ALLWEDDOL

Yr hinsawdd gywir - gweledigaeth, polisi a diwylliant.

Meithrin gallu i sicrhau bod gan staff yr hyder, yr arbenigedd a mynediad at gymorth arbenigol i alluogi hyn i ddigwydd.

Cael Fframwaith Sicrhau Ansawdd er mwyn gwneud yn siwr y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc.

Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a darpariaeth i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ohonynt.

Datblygu perthnasoedd cryf mewn ardaloedd lleol.

Ymagwedd Systemau

Bydd y llinynnau allweddol yn gweithio gyda'i gilydd trwy gylch lle adolygir darpariaeth ysgolion a gwasanaethau ac, o ganlyniad i'r canfyddiadau, rhoddir rhaglen ar waith i sicrhau y caiff anghenion y dysgwyr eu bodloni, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ffigur isod yn dangos y meysydd gweithgarwch allweddol a gyflawnir:

